# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

**EOC(3)-11-10 : Papur 1**

## Hygyrchedd Gorsafoedd Pleidleisio yng Nghymru

### Hygyrchedd Gorsafoedd Pleidleisio - Papur Tystiolaeth Llywodraeth y Cynulliad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

### Diben

Hysbysu'r Pwyllgor ynghylch barn Llywodraeth y Cynulliad o ran hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio.

### Cefndir

Cyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau perthnasol yw sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn gwbl hygyrch. Mae Adran 18B o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006, yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i barhau i adolygu mannau pleidleisio a sicrhau bod pob man pleidleisio, cyn belled ag y bo'n rhesymol ac yn ymarferol, yn hygyrch i etholwyr sy'n anabl. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd hefyd i gydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 ac i wneud addasiadau i safleoedd, o fewn rheswm, er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd i adolygu eu mannau pleidleisio bob pedair blynedd. Cynhaliwyd adolygiadau cychwynnol gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn nhymor yr hydref 2007 yn unol â chanllawiau a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Etholiadol ac felly disgwylir i adolygiadau gael eu cynnal eto'r flwyddyn nesaf.

Llywodraeth y Cynulliad sy'n ariannu etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, er mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am drefniadaeth yr etholiadau hyn. Defnyddir arian Llywodraeth y Cynulliad i dalu am hyfforddiant ar gyfer clercod pleidleisio a swyddogion llywyddu, a chostau cyfarpar ac addasiadau dros dro i orsafoedd pleidleisio.

### Datblygiadau diweddar

Cyn yr Etholiad Cyffredinol, cefais gyfarfod â phrif weithredwr newydd Scope, i drafod ymgyrch 'Etholiadau'n Eithrio' yr elusen, sydd â'r nod o sicrhau bod democratiaeth ym Mhrydain yn fwy hygyrch i bobl anabl. Roedd Scope yn lansio fersiwn Gymraeg o'r adroddiad ar eu harolwg 'Etholiadau'n Eithrio' mewn digwyddiad yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 6ed Gorffennaf. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau'r arolwg hwnnw o orsafoedd pleidleisio yng Nghymru.

Yn ystod yr Etholiad Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6 Mai 2010, ymwelodd ymgyrchwyr Scope â dros gant o orsafoedd pleidleisio gwahanol, yn cwmpasu pob etholaeth seneddol yng Nghymru.

Yn sgîl y gwaith ymchwil hwnnw, ac ym marn yr ymgyrchwyr, roedd gan 67 y cant o orsafoedd pleidleisio o leiaf un rhwystr sylweddol o ran hygyrchedd i bobl anabl;

sef yr un canran ag y nodwyd ar gyfer y DU gyfan. Mae hyn yn welliant o 2 y cant yn unig ers yr Etholiad Cyffredinol diwethaf. Mae'n welliant o 3 y cant ers etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2007 (70 y cant) a gwelliant o 10 y cant ers etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2003 (77 y cant).

Mae adroddiad Scope yn awgrymu y wynebir heriau arbennig o ran sicrhau bod etholiadau yng Nghymru yn hygyrch. Gall yr angen i gael dogfennau mewn dwy iaith olygu cynnydd mewn costau i weinyddwyr etholiadol yn ogystal â'i wneud yn anodd paratoi dogfennau mewn ffontiau mawr. Tra ei bod yn gywir bod pob dogfen ar gael yn ddwyieithog, gall hyn achosi rhwystrau ychwanegol o ran hygyrchedd.

Yn ôl canfyddiadau Scope, er i ddeddfwriaeth a chanllawiau greu sbardun i sicrhau gwelliannau sylweddol, dengys profiad mwy diweddar fod y broses o weithredu'r gwelliannau hynny ar lawr gwlad wedi methu'r nod.

O ganlyniad i hyn roedd llawer o bobl anabl, yn 2010, methodd llawer o bobl anabl â bwrw eu pleidlais yn ddigymorth ac yn gyfrinachol.

Yn adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar drefniadaeth Etholiadau Ewropeaidd 2009, roeddent o'r farn bod gwelliannau wedi'u gwneud i hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio a bod mwyafrif helaeth yr etholwyr yn fodlon â'r broses. Cyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar yr Etholiad Cyffredinol ar 28ain Gorffennaf 2010.

Awgrymodd yr arsylwadau yn adroddiad y Comisiwn fod gorsafoedd pleidleisio ledled y DU yn hygyrch, gan olygu fod yna arwyddion clir i fynedfeydd i bobl anabl, rampiau i wneud gorsafoedd yn haws i'w cyrraedd, bythau pleidleisio ar lefel isel ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a phapurau pleidleisio print bras a dyfeisiau pleidleisio cyffyrddadwy i'r rheini â nam ar eu golwg. Nododd y Comisiwn hefyd fod materion hygyrchedd yn rhan o hyfforddiant staff mewn gorsafoedd pleidleisio.

Mae'r Comisiwn yn nodi bod angen i orsafoedd pleidleisio gael eu cynllunio'n dda er mwyn sicrhau y gall pobl ag anawsterau symudedd eu defnyddio'n hwylus ac mae'n argymell rhoi pwerau i Swyddogion Canlyniadau ddefnyddio unrhyw adeilad cyhoeddus fel gorsaf bleidleisio.

Er i'r adroddiad nodi bod yr etholiad wedi'i reoli'n dda yn y mwyafrif llethol o ardaloedd, cafwyd tystiolaeth nad oedd hyder y pleidleiswyr yn gadarn. Yn ôl gwaith ymchwil y Comisiwn, er bod dros ddwy ran o dair o'r pleidleiswyr yng Nghymru yn hyderus bod yr etholiadau wedi'u rhedeg yn dda, roedd tri o bob deg nad oeddent yn hyderus iawn neu'n hyderus o gwbl ynghylch y broses.

### Y camau nesaf

Rwyf yn ystyried adroddiadau'r Comisiwn Etholiadol a Scope ar yr etholiad cyffredinol ar hyn o bryd. Rwyf yn bwriadu ysgrifennu at Brif Weithredwyr bob awdurdod lleol cyn Etholiadau'r Cynulliad yn 2011 i'w hatgoffa ynghylch eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Gweinyddu Etholiadol a gofyn pa gamau maent yn eu cymryd i sicrhau hygyrchedd.